**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 12 Mawrth 2003

**Amser:** 9.15 am hyd 12.15 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

**STRATEGAETH DDRAFFT CYMRU AR GERDDED A BEICIO**

**Diben**

1. Rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o'r themâu a'r materion allweddol a bennwyd wrth baratoi Strategaeth ddrafft Cymru ar Gerdded a Beicio.

**Crynodeb**

2. Mae Aelodau wedi derbyn copïau electronig a phapur o'r Strategaeth ddrafft. Gofynnir i'r Aelodau am eu sylwadau. Fersiwn drafft o'r Strategaeth ydyw. Bydd y ddogfen derfynol ychydig yn fyrrach a bydd hefyd yn pennu amcanion allweddol.

**Y Cefndir**

3. Ar 15 Mai 2002 bu i'r Aelodau ystyried y Ddogfen Ymgynghori ddrafft ynghylch Strategaeth Cymru ar Gerdded a Beicio. Lansiwyd y ddogfen ymgynghori ar 15 Gorffennaf.

4. Cafwyd 120 o ymatebion a bu i lawer ohonynt ganolbwyntio ar gwmpas y Strategaeth. Nododd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd y dylem ailystyried cynnwys marchogaeth yn y Strategaeth ac y dylem ymdrin â'r gwrthdaro rhwng y gwahanol ddulliau teithio.

5. Cyflwynwyd y Strategaeth ddrafft a baratowyd gan Halcrow i Is-Grwp Cerdded a Beicio Fforwm Trafnidiaeth Cymru ar 10 Chwefror. Roedd yr is-grwp yn gefnogol i raddau helaeth ond cydnabyddwyd bod angen mynd i'r afael â rhai materion. Roedd y strategaeth ddrafft yn annog eu diddordeb a'u hymrwymiad ac roedd yn arweiniad i wahanol fentrau cerdded a beicio ar draws Cymru. Roedd cefnogaeth eang i'r Strategaeth a chanolbwyntiwyd yn arbennig ar:

- Llunio Pwyntiau Gweithredu yn dangos blaenoriaethau ac amserlenni;
- Cydnabod pwysigrwydd y cydbwysedd rhwng defnydd cyffredinol a defnydd at ddiben hamdden;

- Trin rhwydweithiau mewn trefi/dinasoedd ac yng nghefn-gwlad yn gyfartal;
- Bod yn gyson ac yn bendant ynghylch 'Symudedd Cynhwysol';
- Tynnu sylw at fentrau Cymreig sy'n seiliedig ar arferion gorau yn Ewrop;
- Cynnal yr Is-Grwp Cerdded a Beicio.

6. Cydnabyddodd yr is-grwp 3 thema lle nad oedd yn bosibl dod i un casgliad:

- O ran marchogaeth, roedd y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi'r ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori ac yn teimlo na ddylai'r Strategaeth gyfeirio at farchogaeth. Roedd y cynrychiolydd o Gymdeithas Geffylau Prydain, a deimlai y gallai marchogion fod dan anfantais, yn gwrthwynebu hyn. Bu i aelodau'r is-grwp gytuno y dylai'r Strategaeth ar Gerdded a Beicio roi mwy o sylw i anghenion marchogwyr o ran creu llwybrau a rhannu lle. Bu i'r is-grwp ganmol y Strategaeth Diogelwch Ffyrdd yn ogystal am y ffordd yr ymdriniwyd yn gynhwysfawr ag anghenion marchogion.
- O ran 'Symudedd Cynhwysol' bu i gynrychiolwyr o DPTAC, Anabledd Cymru a'r Gymdeithas Fynediad ddadlau bod yn rhaid i'r Strategaeth ar Gerdded a Beicio fod yn glir ac yn gyson o ran rhoi anghenion pobl ag anableddau yn gyntaf. Cytunai'r rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr â hyn ond bu i rai aelodau fynegi pryder ynghylch cost cyflwyno hyn ac ynghylch pa mor ymarferol ydoedd mewn gwirionedd.
- O ran rhannu lle, nid oedd unrhyw gytundeb barn. Bu i'r Aelodau gydnabod rhai o'r tensiynau a chydnabyddwyd yr angen i bennu ffyrdd o ddatrys gwrthdaro rhwng defnyddwyr. Er enghraifft, cydnabyddodd yr is-grwp fod angen i feicwyr a gyrwyr ddysgu i rannu'r ffordd a bod angen i gerddwyr, beicwyr a marchogwyr fabwysiadu a defnyddio codau ymddygiad ar gyfer Llwybrau a Rennir.

7 Croesewir sylwadau Aelodau ynghylch y materion hyn.

**Y Strategaeth**

8. Prif nod y Strategaeth yw hyrwyddo Cerdded a Beicio er mwyn sicrhau dulliau teithio iach, cynaliadwy ac sy'n garedig i'r amgylchedd ar gyfer pawb o fewn y gymdeithas. Pennir nifer o themâu allweddol:

- Amlinellu Gweledigaeth ar gyfer Cerdded a Beicio;
- Gweld yr agweddau ehangach ar Hybu Iechyd, Plant a Phobl Ifanc, Cynhwysiant Cymdeithasol, Diogelwch Ffyrdd, yr Amgylchedd a'r Economi;
- Cymryd camau gwirioneddol mewn perthynas â Symudedd Cynhwysol, Dysgu i Rannu Lle, Cynllunio Da, Cynnal Ansawdd a Thrafnidiaeth Gyhoeddus;

- Rhoi Newidiadau ar Waith - ymdrin â'n hagweddau a'n hymddygiad, dulliau o'u newid er mwyn gallu newid;
- Pennu'r Nod - cynnig targedau, monitro a meincnodi.

9. Mae'r Strategaeth ddrafft yn amlinellu rhaglen ymarferol yn cynnwys blaenoriaethau hyd at 2010, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, grwpiau cymunedol a mudiadau cerdded a beicio.

**Cydymffurfio**

10. Nid oes unrhyw faterion o ran cydymffurfio y mae angen mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd.

**Goblygiadau Ariannol**

11. Bydd y gwariant yn dibynnu ar y system arfarnu cynigion mewn perthynas â'r Grant Trafnidiaeth.

**Themâu trawsbynciol**

12. Cyflwynir y Strategaeth yn sgîl dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a'i ymrwymiad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae'r Strategaeth yn bodloni'r holl ofynion hyn. Mae'r Fframwaith Trafnidiaeth wedi amlinellu'r cyfeiriad strategol cyffredinol drwy gyfeirio at annog "newid dulliau teithio".

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

13. Cyflwyno sylwadau ynghylch y Strategaeth ddrafft. Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei hanfon at Fforwm Trafnidiaeth Cymru ac at yr is-grwp Cerdded a Beicio cyn y bydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

**Pwynt Cyswllt**

Andrew Hemmings, Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth, est. 6947, andrew.hemmings@wales.gsi.gov.uk.